# PERTHYN

Mai 2026 Rhifyn 327



Pentecost 2026

# Gair y Gweinidog

Profiad chwerw-felys oedd arwain gwasanaeth olaf eglwys Seion, Croesoswallt. Wedi dwy ganrif a throsodd o wasanaeth, fe ddaeth yr achos i ben, a’r aelwyd a fu’n gartref i gynifer o Gristnogion bellach yn rhan o’r gorffennol. I mi, mae gweld achos yn cau yn destun tristwch, a realiti y sefyllfa yn y Gymru sydd ohoni yw y gwelir ardaloedd heb unrhyw ffyrdd ar dystiolaeth yn y dyfodol. Mae yna sôn am blannu eglwysi, a da felly, ond mae angen bod yn ymwybodol o’r perygl o ganiatáu i safbwyntiau diwinyddol arwain yr ymdrech yn hytrach na pherthnasau eciwmenaidd h.y. enwadau yn cynllunio ac yn gweithio gyda’i gilydd i sicrhau ffyrdd ar dystiolaeth.

Heb fanylu, cafwyd esiampl ddiweddar o realiti’r sefyllfa, wrth sylwi ar werthwr tai yn hysbysebu capel arbennig, capel oedd yn enwog am ei draddodiad efengylaidd. Ar hyd y blynyddoedd, sicrhaodd yr arweinyddiaeth bod bywyd yr eglwys yn seiliedig ar ddiffiniad penodol o’r Ysgrythurau, a hynny’n gyfrwng i greu ac i ddenu cynulleidfa ac aelodaeth o natur arbennig. Fe fyddai rhywun yn meddwl bod dyfodol gwahanol i’r math yma o eglwys, ond nid dyna’r gwir. Bellach mae’r achos wedi dod i ben a’r adeilad ar werth.

**I mi, mae gweld datgorffori achos o’r fath yn dweud llawer. Yn gyntaf, pa mor anaddas y gall adeiladau’r gorffennol fod ar gyfer yr Eglwys heddiw, a’n bod wedi etifeddu rhywbeth materol y mae gwir angen i ni edrych arno o’r newydd. Ac yn ail, bod yna wir argyfwng ysbrydol yn ein gwlad. Rydym bellach y tu hwnt i ‘winllan wen a roed i’n gofal ni’, ac yn byw ein bywydau mewn cyfnod sy’n galw am ddealltwriaeth newydd o’r Efengyl a ffyrdd newydd o’i dehongli a’i byw. Rhywbeth sy’n galw am ddewrder, argyhoeddiad, aberth ac ymroddiad**.

Ymhen ychydig o wythnosau fe fydd hi’n Bentecost gyda’i ddathliadau a’i gwestiynau. Dathlu dyfodiad yr Ysbryd Glân, nerth Duw, goleuni Duw, sy’n ein cynnal a’n cyfeirio yn y presennol a’r dyfodol, ond hefyd amser o’r newydd i ofyn cwestiynau ac yn eu plith: ‘beth yw ystyr bod yn eglwys?’, ‘sut allwn ni fod yn eglwys?’

Gellir ateb y cwestiynau hyn ar wahanol lefelau. Cofiwch am ddarluniau'r Testament Newydd sy'n sôn am yr Eglwys yn nhermau 'priodasferch' a 'chorff', a holl oblygiadau hynny, a thu hwnt i hynny, 'Crist y conglfaen', ond hefyd y ddealltwriaeth o bobl. Onid dyna mewn gwirionedd yw'r eglwys – ei phobl ? Onid dyna sy'n siapio ei bywyd yn lleol ac yn genedlaethol, ei phobl, ond ei phobl yn gwneud tri pheth. Yn ceisio bod yn gymdeithas, gyda'r ddealltwriaeth o gymod yng Nghrist ac felly'n dyrchafu cariad a phob peth sy'n perthyn i gariad ac yn deillio ohono. Un o sylwadau cymdeithas y ganrif gyntaf wrth edrych ar fywydau y Cristnogion cynnar oedd 'gwelwch y fath gariad sydd gan y rhain tuag at ei gilydd'. Pobl amherffaith, yn gwneud camgymeriadau, ond yn adnabod maddeuant, ac yn rhoi cariad ar waith yn eu hamrywiol berthnasau. Yna'n ail, pobl yn addoli. Yn cydnabod gwaith Duw yng Ngrist, yn ceisio adnabod ffyrdd Duw yng Nghrist ac yn ceisio ei ddilyn. Dealltwriaeth sy'n cwmpasu yr Ysgrythurau a'r Sacramentau. Ac yna'n olaf, gwasanaeth. Pobl yn addoli ond hefyd pobl yn gwasanaethu. Yn adnabod cyd-destun eu bodolaeth ac yn ymateb gyda'r ddealltwriaeth o fywyd newydd yng Nghrist.

Da o beth fyddai i ni feddwl am y tri pheth yna o'r newydd.

Gyda'r Pentecost ar y gorwel, fe gaiff Gwenallt y gair olaf:

Pe gofynnent i'r Anadl godi'r llifddorau
A mentro allan i'r afresymol fôr;
Eu hangor yn ir, eu hwyliau yn hyderus,
A ffydd ar fwrdd, ffenestr a dôr:
Hwy a gaent weled y Crist wedi Ei hoelio
Yn dechnegol ar Ei blwtonium Groes;
Yn disgyn oddi arni; yn dofi'r dyfroedd
Ac yn tagu ystormydd niwclear ein hoes.

Dyfyniad o 'Yr Eglwysi' yn y gyfrol *Gwreiddiau*.

Gofalwch eich bod yn rhoi eich croes yn y man cywir!
Eifion

# Newyddion Ebeneser




## Cofion . . .

Anfonwn ein dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser.

Anfonwn ein cofion at y rhai sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi ac sy'n methu ymuno yn y gwasanaethau. Rydym yn cofio'n gynnes iawn atoch.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad i Melvyn Hughes sydd wedi colli ei briod, Susan Hughes. Cynhaliwyd yr angladd yn yr Amlosgfa ddydd Llun, 13 Ebrill, o dan arweiniad y Parchedig Eifion Roberts. Roedd yn gyfle i aelodau Ebeneser oedd yn bresennol i ddiolch am fywyd Susan ac i werthfawrogi ei chyfraniad tawel a'i chefnogaeth bob amser. Cydymdeimlwn hefyd â'i dwy chwaer a'r teulu oll.

## Gwasanaethau

**3 Mai** – Gwasanaeth Cymun
**24 Mai** (Pentecost) – Gwasanaeth

Bydd y gwasanaethau o dan arweiniad y Gweinidog, y Parch Eifion Roberts.

*I'r rhai sydd heb fod yn yr oedfaon yn Ebeneser, beth am ymuno ambell Sul? Mae bob amser groeso cynnes yn eich disgwyl.*

# Newyddion Morfa

Anfonwn ein cofion at y rhai sydd wedi bod yn yr ysbyty, ac at y rhai sy'n derbyn gofal mewn cartrefi gofal neu yn eu cartrefi eu hunain.

## Cydymdeimlo . . .

Cydymdeimlwn â Laurie Wright a Hefina ar farwolaeth Bernard Wright, brawd Laurie, oedd yn byw yn Sutton.

## Llongyfarchiadau . . .

Llongyfarchiadau i Elaine ac Emyr Reynolds ar enedigaeth eu hwyres, Alys Eiry Mair – merch i Lois a Dan a chwaer i Idris.

Llongyfarchiadau i Nia a Meurig Royles ar ddathlu eu priodas aur ar 20 Ebrill.

## Dymuniadau Gorau . . .

Dymunwn yn dda i bawb ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen at ddilyn eich hanes yn Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026, ddiwedd Mai.


# MAN CYNNES . . .

COFIWCH am y **MAN CYNNES** (Paned, Cawl a Chymdeithas) yn Festri'r Morfa bob dydd Mercher o 11 tan 2 o'r gloch.

Diolch yn fawr i bawb sy'n cynorthwyo ac yn croesawu.

Mae croeso cynnes i bawb.

# DATHLU'R GWANWYN




Wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol baratoi i ymweld â chaeau Llantŵd, ger Aberteifi, ym mis Awst, dewch i ddathlu gobaith a goleuni'r gwanwyn mewn noson a ysbrydolwyd gan eiriau Dic yr Hendre.

Mae 'Dathlu'r Gwanwyn' yn ffrwyth cydweithio agos rhwng y cerdd dantwyr Bethan Bryn, Aberystwyth, ac Arfon Williams, Cwmtirmynach, wrth iddynt osod awdl gyflawn *Gwanwyn*, Dic Jones, a hynny ar achlysur hanner canmlwyddiant ei chyfansoddi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi 1976 – y tro diwethaf i'r Brifwyl ymweld â'r fro.

Y datgeiniaid fydd Parti'r Greal, Parti'r Cwm, Meibion Jacob a Bois yr Arad Goch – partïon sydd rhyngddynt yn cynnwys llu o enillwyr prif wobrau'r Eisteddfod Genedlaethol. Y telynorion fydd Llio Penri, Eirian Jones a Heledd Davies.

## Nos Wener, 15 Mai am 7.30pm yng Nghapel y Morfa

Tocynnau: £15. Ar gael o Siop Inc 01970 626200 – arian parod. Elw at Ambiwlans Awyr Cymru – diolch i nawdd gan Gymdeithas Gerdd Dant Cymru.

# Er Cof
# SUSAN CAROLINE HUGHES

Brodor o Benparcau oedd Susan, a heblaw am bum mlynedd yn Burnley, rhwng 1975 a 1980, ym Mhenparcau y dewisodd fyw trwy gydol ei bywyd. Un o Lundain oedd Jack ei thad ac wedi dychwelyd o Dunkirk fe'i gyrrwyd i orffwys i Aberystwyth lle y cyfarfu ag Elonwydd. Ffrwyth y cyfarfyddiad yna oedd cyfeillgarwch a arweiniodd at garwriaeth a phriodas ac ymhen amser, teulu: Diane, Ruth a Susan.

Yn naturiol, mynychodd Susan Ysgol Gynradd Penparcau ac Ysgol Ardwyn ac yna dechrau gweithio yn y siop llyfrau Cymraeg yn Great Darkgate Street. Dyma mewn gwirionedd fu hanes bywyd gwaith Susan. Wedi dychwelyd o Burnley, aeth ati i weithio gyda Wyn ac Yvonne Evans ac yna Dylan Williams. Codi'n gynnar, gofalu bod y papurau'n barod, ac yn y blynyddoedd olaf rhedeg y busnes ac roedd wrth ei bodd. Cyflawnodd y gwaith gyda graen a'r bonws iddi hi oedd dod i adnabod pobl. Yn sgil ei gwaith, roedd cymaint yn ei hadnabod a hithau yn nhawelwch ei phersonoliaeth yn dderbyniol gan gymaint o bobl Aberystwyth.

Yng nghanol hyn i gyd, cyfarfu â Mel. Bu'r ddau yn briod am bedwar deg wyth o flynyddoedd a'r ddau yn deall ei gilydd i'r dim. Dwysaodd gofal Mel tuag at Susan yn ei blwyddyn olaf, a bu'n esiampl o ŵr a ffrind.

Ar ôl ymddeol, cafodd Susan a Mel gyfle i deithio, ac roedd ymweliadau â'r Unol Daleithiau, i ymweld â brawd Mel, a Llundain, man ei gwreiddiau, ar flaen y rhestr. Roedd pêl-droed a golff yn bwysig, wrth gwrs, ond roedd yna rywbeth arall hefyd, sef Ebeneser. Hi oedd yn gyfrifol am agor y drws, am roi'r gwres ymlaen ac am osod y bwrdd Cymun o fis i fis a bu'n gwneud y gwaith yn dawel ac yn ffyddlon. Y cyfan yn adlewyrchiad o'i natur a'i phersonoliaeth. Ni fu'r flwyddyn

olaf yma'n un hawdd iddi hi na Mel, ond wynebodd y dirywiad yn ei hiechyd gyda dewrder a ffydd. Er y gobaith am iachâd, gwelwyd dirywiad yn ei chyflwr a bu farw'n dawel ar yr aelwyd a olygai'r byd iddi.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mel ynghyd â Diane, Ruth a'u teuluoedd.

Bu'r angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar 13 Ebrill gyda'r Parchedig Eifion Roberts yn gwasanaethu.

## Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol

Bydd y cinio Bara a Chaws nesaf **yn Bethel, Stryd y Popty**, **ddydd Llun**, **11 Mai**, rhwng 12.00 a 1.30pm.

Byddai'n braf gweld cynifer â phosibl yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol.

**Croeso cynnes i bawb – Dewch i gefnogi!**

# Dod i adnabod ein haelodau newydd

Braf medru croesawu dau aelod newydd i'n plith yn ddiweddar. Dyma gyfle i ddarllen tipyn am eu hanes.

Mae cyfraniad MARIAN DELYTH ar dudalen 13.

## DILYS HUGHES



**Hoffech chi rannu gyda ni ychydig o fanylion am eich bywyd cynnar a'ch magwraeth a sut y gwnaeth hynny ddylanwadu arnoch.**
Fe'm ganed ar fferm mewn cartref llawn cariad, yn Sir Gâr, yr ail o bedwar plentyn. Mynychais Ysgol Gynradd Cilycwm cyn mynychu Ysgol Ramadeg Llanymddyfri, bellach Ysgol Gyfun Pantycelyn. Ces fy medyddio a'm meithrin yn Eglwys Sant Mihangel, eglwys y plwyf, gyda'r Canon Emrys Thomas yn ein trwytho yn nhraddodiad Eglwys Loegr! Ysgol uniaith Gymraeg oedd yr ysgol gyda gwasanaethau Cymraeg a Saesneg bob yn ail yn yr eglwys. Braint oedd cael fy magu mewn cymdeithas Gymraeg wledig a chael cyfoeth o brofiadau wrth fynychu'r capeli lleol a'u gweithgareddau, y Sioe Leol, Helfa y Tywi a'r Cothi ac yn arbennig, Glwb y Ffermwyr Ieuainc.

**Rhowch amlinelliad o'ch bywyd personol a'ch gyrfa.**
Gan fod gen i ddau frawd iau a fyddai'n dilyn ar y fferm, bûm yn ffodus i lwyddo yn y Matric a chyrraedd Prifysgol Aberystwyth – y cyntaf o'r teulu i fynd i Brifysgol! Graddio mewn Cymraeg a Daearyddiaeth cyn dilyn cwrs Diploma mewn Addysg a chyrraedd fy nod i fod yn athrawes.

Roedd fy swydd gyntaf yn Ysgol Glan Clwyd, Y Rhyl, ond wedyn treulio tair blynedd yn fy hen ysgol, Ysgol Pantycelyn. Ond roeddwn wedi cyfarfod fy ngŵr, Hywel, yng Nglan Clwyd ac ar ôl priodi symud i fyw yn Nhrefnant, yn Nyffryn Clwyd yn Ionawr 1970, lle bûm yn byw tan 2025! Bûm yn ffodus o gael gyrfa ddiddorol ac amrywiol (yn cynnwys chwe blynedd adre yn magu'r genod), yn dysgu mewn ysgolion uwchradd a chynradd, cael swyddi ymgynghorol ac arolygyddol yng Nghlwyd a Chymru cyn gorffen fel Swyddog Addysg Uwchradd Sir Ddinbych yn 2004.

**Oedd yna gyfle i ddilyn rhai diddordebau?**
Brodor o Fôn oedd y gŵr, athro a Phresbyteriad – tipyn o newid byd! Wedi sefydlu ein cartref cyntaf, sicrhau swydd, ymuno â'r capel lleol a gwneud ffrindiau newydd, cawsom fel teulu bron i hanner can mlynedd o fywyd hyfryd a gwerthfawr yn Nhrefnant. Cawsom y fraint o fagu Anwen a Mair yng nghanol cymdeithas Capel Trefnant, cymdeithasau Twm o'r Nant a Glan Clwyd, y teuluoedd yn y de a'r gogledd a'r gymdeithas yn y fro.

**Pa mor bwysig fu capel a chrefydd ichi dros y blynyddoedd? Ymhle y buoch chi'n aelod?**
Roedd bywyd yn brysur, felly dewisom weithgareddau y gallem eu mynychu fel teulu – gwersylla, teithio a chymdeithas y Capel. Yno, yn ogystal â chyd-addoli, roedd yr Ysgol Sul, y Gymanfa, y Gymdeithas Lenyddol a'r Cwmni Drama oll yn cyfoethogi ein bywydau. Nid oes gwell cymdeithas na chymdeithas eglwys. Mae lle i Bawb yno – o'r baban ieuaf i'r aelod hynaf – pob un yr un mor werthfawr a phwysig.

**O edrych yn ôl, sut mae pethau wedi newid, er gwell a/neu er gwaeth?**
Braint oedd cael fy ngeni i deulu Cristnogol ac yna, yn ffodus, brofi addysg drylwyr, bendant yr eglwys wrth dyfu a chael cyfle i'w chymhwyso drwy fy mywyd yng Nghapel Trefnant, dan arweiniad pum Gweinidog gwahanol! Ces gyfle i ddatblygu fy Ffydd, gofyn cwestiynau,

helpu yng ngwaith arwain yr eglwys gan dyfu yn fy ffydd, sydd wedi fy argyhoeddi na fedrwn fyw heb Iesu. Profwyd hyn gan Hywel a minnau yn ystod pymtheng mlynedd ola ei fywyd ac yntau'n dioddef o'r clefyd Alzheimers. Fy nghri yn aml ydy – 'O, na bawn yn fwy tebyg i Iesu Grist yn byw…'. Mae'r nod yn heriol iawn ond rhaid dal at ein Ffydd, Gobaith a Chariad i'n cynorthwyo ar y daith.

**Beth oedd eich gobeithion wrth ymaelodi â Chapel y Morfa? Beth yw eich argraffiadau?**

Wedi aros ymhlith ffrindiau yn Nhrefnant am saith mlynedd wedi colli Hywel, er mor anodd oedd symud, roedd yr amser wedi dod i mi fyw yn nes at Anwen a Mair a 'downseisio'. Cael trefn ar y fflat yn y Lanfa ac yna mynychu ac ymaelodi yng Nghapel y Morfa oedd fy nhasgau cyntaf wrth geisio ymgartrefu yn Aberystwyth. Roedd y ffaith fy mod yn adnabod rhai pobl yn yr ardal yn gymorth ac ni chefais fy siomi gan Gapel y Morfa. Mae yma eglwys groesawgar, gyfeillgar a chartrefol. Diolch i bawb ohonoch am eich croeso i'r gymdeithas.

**A oes gennych unrhyw gyngor inni wrth symud ymlaen a cheisio addasu ar gyfer anghenion y dyfodol?**

Profais mewn eglwys fach cefn gwlad fod gwaith ac argyhoeddiad pob aelod unigol yn hollbwysig a gwerthfawr a chredaf mai tasg eglwysi mwy, a threfol, ydy sicrhau bod pob aelod yn teimlo'n werthfawr ac yn rhan o Genhadaeth fawr yr Eglwys. Y gwaith cenhadol hwnnw, drwy gyfarfodydd gweddi a mawl, ynghyd â gwaith ymarferol yn y gymdeithas, sydd yn mynd i sicrhau llwyddiant eglwysi Cymraeg Cymru i'r dyfodol.

---

# Cylch Gweddi a Choffi bore dydd Mawrth

Mae'r Cylch Gweddi a Choffi sy'n cyfarfod bob bore Mawrth yn cyfarfod yn y Festri (10.30) ac ar Zoom (11.00) am yn ail wythnos.

# Pantri Aber

Prosiect newydd yw Pantri Aber sy’n cyd-fynd â’r cymorth a roddir gan fanc bwyd Stordy’r Jiwbilî ond sy’n annibynnol ar y Stordy. Catherine Griffiths, Robin Huw Bowen a Rita Slade yw’r ymddiriedolwyr ac elusen gofrestredig yw Pantri Aber (rhif 1216418) gyda’i chyfrif banc ei hunan.

Ar hyn o bryd, rydym yn estyn gwahoddiad i bobl ddod bob prynhawn dydd Gwener i’r caffi yng Nghanolfan Morlan am baned, bisgedi, ffrwythau ffres a sgwrs. Os yw cynigion am grantiau’n llwyddiannus, bydd y pantri’n dechrau’n gynnar yn yr haf.




Bydd pobl sy’n ymgodymu â chostau byw yn gallu dod yn gyntaf am baned, sgwrs a chyngor gan asiantaethau cymorth, os oes angen. Wedyn, maen nhw’n gallu talu £5 i fod yn aelod o’r pantri am yr wythnos a mynd o amgylch y silffoedd, yr oergell a’r rhewgell i ddewis nifer penodol o eitemau sydd o werth £10 o leiaf. Mae aelodau’r pantri yn gallu gwirfoddoli yn y pantri hefyd. Amcan y pantri yw helpu pobl mewn angen i gael mwy o fwyd am lai o arian.

Mae pobl sy’n dod i’r banc bwyd yn rheolaidd yn hoffi’r syniad o bantri – mae rhai eisiau cwmni achos eu bod nhw’n unig, rhai yn hoffi talu rhywfaint er mwyn dal i allu wneud eu siopa eu hunain yn lle

derbyn 'handout', llawer yn hoffi cael dewis beth maen nhw eisiau a rhai yn edrych ymlaen i wirfoddoli.

Os ydych chi eisiau clywed mwy am Pantri Aber neu eisiau cyfrannu arian i brynu bwyd, cysylltwch â Catherine neu Robin yn y capel neu e-bostiwch pantriaber@gmail.com, os gwelwch yn dda.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

# Dod i adnabod ein haelodau newydd

## MARIAN DELYTH

**Hoffech chi rannu gyda ni ychydig o fanylion am eich bywyd cynnar a'ch magwraeth a sut y gwnaeth hynny ddylanwadu arnoch.**



Cefais fy ngeni yn Aberystwyth. Magwyd fy mrawd a minnau ar aelwyd lle'r oedd tair cenhedlaeth o'r teulu'n byw. Roedd hi'n aelwyd grefyddol gyda fy nhad-cu, Dan Tibbott, yn flaenor yng nghapel Seilo tra oedd fy nhad, T.R. Jones, yn flaenor ac yn ysgrifennydd yng nghapel Blaen-plwyf lle magwyd yntau. Bu Mam yn mynychu Capel

Seilo hefyd tan iddi briodi ac ymuno â T.R. ym Mlaen-plwyf gan wasanaethu fel organyddes yno. Felly roedd ein Suliau'n rhai prysur iawn. Ni'r plant yn mynychu Ysgol Sul Seilo gyda fy nhad-cu yn y prynhawn ac yn mynd i'r cyrddau ym Mlaen-plwyf hefyd – doedd neb adre i warchod! Arwydd o argyhoeddiadau'r teulu oedd bod pawb ohonom yn cyd-adrodd gras cyn pob pryd bwyd:

O Dad yn deulu dedwydd – y deuwn
Â diolch o newydd;
Cans o'th law y daw bob dydd
Ein lluniaeth a'n llawenydd.
W.D.Williams

Yr oedd hi'n sicr yn aelwyd llawn llawenydd, hiwmor a chariad. A ninnau'n byw ganllath o Aelwyd yr Urdd roedd gweithgareddau'r Urdd yn bwysig yn fy magwraeth hefyd.

**Rhowch amlinelliad o'ch bywyd personol a'ch gyrfa.**
Ar ôl mynychu Ysgol Gymraeg Aberystwyth ac Ysgol Ramadeg Ardwyn euthum i dri choleg celf – Caerdydd, Casnewydd a Birmingham – ac ennill gradd mewn Dylunio Graffeg a Gradd Uwch mewn Ffotograffiaeth. Wedi cyfnod yn gweithio mewn asiantaeth hysbysebu ac yna'r Cyngor Llyfrau Cymraeg (lle deuthum i adnabod Gwerfyl Pierce Jones), euthum i weithio'n llawrydd yn 1982 fel dylunydd a ffotograffydd. Cefais lawer o gomisiynau yn y byd cyhoeddi ond dechreuais droi fwyfwy at brosiectau personol gan gynnal arddangosfeydd a chyhoeddi llyfrau o'm gwaith fy hun. Mae fy archif ffotograffiaeth bellach wedi troi'r hanner can mlwydd oed! Bûm yn teithio'n helaeth yng Nghymru, diolch i gomisiynau lu, ac roedd y rheiny'n aml yn geisiadau am luniau o gapeli ac eglwysi. Byddaf yn taro i mewn i rai ohonynt o hyd wrth deithio. Fedra i byth yrru heibio i The Pales heb daro i mewn i Dŷ'r Crynwyr yno sydd mewn llecyn hynod o heddychlon a hardd.

**Oedd yna gyfle i ddilyn rhai diddordebau?**
Fi yw'r drydedd genhedlaeth o fy nheulu i gynnal gardd lysiau yma. Arferwn roi cymorth i fy nhad i hau. Tybiaf nawr yn oed yr addewid mai osgoi plygu ar ei liniau ydoedd wrth fy nghanmol am hau mor ddeheuig! Mae hau a meithrin planhigion yn falm i'r enaid a'r cynnyrch iach organig yn llesol i'r corff.

**Pa mor bwysig fu capel a chrefydd ichi dros y blynyddoedd? Ymhle y buoch chi'n aelod?**
Cefais fy medyddio gan y Parchedig Brifardd David Jones ym Mlaen-plwyf. Byddai'n rhoi oren a thocyn llyfr Cymraeg yn anrheg i ni'r plant bob Nadolig. Deuthum yn gyflawn aelod yno yn ystod fy arddegau pan oedd y Parchedig J.D. Jones yn weinidog arnom. Wnes i erioed gilio'n llwyr oddi wrth y capel, ond fe fu cyfnodau pan oedd yn well gennyf gerdded yn nhawelwch byd natur ar y Sul a threulio amser yn myfyrio yn hytrach na mynd i'r cwrdd. Mae'r meddwl creadigol yn un sy'n chwilio, yn trafod syniadau, a bob amser yn cwestiynu. Yn y cyfnodau hynny teimlwn yn hapusach yn meddwl amdanaf fy hun fel rhyw fath o 'agnostic anghydffurfiol'!

Roedd hi'n arferiad gan Gapel Blaen-plwyf gynnal gwasanaeth yn ystod wythnos gyntaf y flwyddyn. Cofiaf un nos Wener dywyll yng nghanol llymder y gaeaf i mi glywed y geiriau canlynol yn dod o'r pulpud yng nghanol y bregeth 'Dos allan i'r tywyllwch a rho dy law yn llaw Duw…' (cyfieithad o gerdd Minnie Louise Haskins). Cydiais yn y ddelwedd yn syth – neu efallai mai hi gydiodd ynof fi. Bu'n gymorth i mi wrth wynebu'r cyfnodau heriol yn fy mywyd a chydiais yn dynnach yn y llaw gyda threigl y blynyddoedd. Bu'r 'llaw anweledig' honno yn fy nghynnal drwy gydol misoedd fy nhriniaeth ar gyfer salwch difrifol rai blynyddoedd yn ôl yn ysbyty'r Waun yng Nghaerdydd lle'r oedd Seintwar (gofod tawel aml-ffydd) wedi ei lleoli'n gyfleus ger y ward Haematoleg. Ond mae crefydd ac aelodaeth o eglwys yn golygu mwy i mi nag achubiaeth bersonol ac rwy'n ymwybodol iawn o gyfrifoldeb at gynnal y Gristnogaeth gymdeithasol. Ar hyd fy mywyd yr wyf wedi cefnogi a chofnodi ymgyrchoedd dros heddwch a chyfiawnder.

**Beth oedd eich gobeithion wrth ymaelodi â Chapel y Morfa? Beth yw eich argraffiadau?**

Bûm yn cerdded i'r capel ym Mlaen-plwyf am ddeugain mlynedd ar ôl symud i fyw yn y pentref yn 1978. Pan gaewyd y capel byddai'n rhaid neidio i gerbyd i fynychu lle o addoliad. I ba gyfeiriad y dylwn yrru? Penderfynais mai cyfannu cylch fy mywyd y byddwn yn ei wneud a dychwelyd i'r dref ac i Gapel y Morfa. Mae hi'n eglwys fywiog, groesawgar a llawen sy'n gwasanaethu'r anghenus yn y gymuned yn ogystal â chynnal defosiwn. Yr ydym yn freintiedig bod gennym weinidog i'n harwain a'n cynnal yn y dyddiau pan mae gweinidogion yn prinhau yn ein heglwysi. Yr wyf yn hynod hapus yma. Diolch i bawb am eu croeso.

**A oes gennych unrhyw gyngor inni wrth symud ymlaen a cheisio addasu ar gyfer anghenion y dyfodol?**

Rwy'n aelod newydd ac nid fy lle yw dechrau cynghori'r eglwys! Rwy'n awyddus, serch hynny i chwarae fy rhan yn nyfodol yr eglwys a gwnaf fy ngorau i gyfrannu at ei llewyrch.

COFIWCH ymweld â gwefan Capel y Morfa i gael y newyddion diweddaraf – ac mae croeso i chi gyfrannu!
www.capelymorfa.cymru

COFIWCH hefyd ddilyn cyfrif Capel y Morfa ar Facebook

# Clwb Sul Capel y Morfa

Cynhaliwyd Gwasanaeth Teulu ar Sul y Pasg gyda nifer o'r teuluoedd yn bresennol a chafwyd cyfle i rannu wyau gyda'r plant a'r bobl ifanc a chyfle i weld cynnyrch Llan Llanast y Pasg yn y Festri. Wedi'r oedfa deulu, cafwyd yr helfa wyau blynyddol a chyfle i gasglu wyau a cherrig oedd yn dangos stori'r Pasg. Diolch i Catherine am ei threfniadau trylwyr arferol.







Dyma'r Clwb Sul yn cael stori Cleopas ac yn adnabod Iesu'n dweud bendith a thorri'r bara.

## Gweddi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol 2026

Dduw grasol,
pan safwn ar wastadeddau ansicrwydd,
heb unrhyw lwybr o'n blaen,
rydym yn troi atat Ti.




Rydym yn cofio'r hyn yr wyt wedi'i wneud o'r blaen
ac mae ein calonnau pryderus yn cael eu cysuro.
Gan ddangos trugaredd, fe'n hachubaist ni ar y pryd;
yn dy gariad a'th ffyddlondeb,
ac mi fyddi'n gwneud hynny eto.

Rho nerth inni gamu ymlaen mewn gobaith.
Rho ffydd sy'n ein newid,
gobaith sy'n ein cynnal,
cariad sy'n ein symud.
Yn enw Iesu,
Amen.

Cyfieithiad o weddi gan Bob Kikuyu, Ymgynghorydd Diwinyddiaeth Byd-eang Cymorth Cristnogol, Nairobi.

## Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion

Capel Bethel, Stryd y Popty, Aberystwyth
Dydd Sul, 17 Mai 2026
am 10yb a 5.30yh




**Arweinydd**: Gregory Vearey-Roberts
Gyda Chôr Merched Ger y Lli

**Trefn y Rihyrsals**

Nosweithiau Mercher am 7.00 o'r gloch

**22 Ebrill**: Capel Bethel, Stryd y Popty
**29 Ebrill**: Capel Seion, Stryd y Popty
**6 Mai**: Capel Seion, Stryd y Popty
**13 Mai**: Capel Bethel, Stryd y Popty


---

## Y Gymdeithas – 13 Ebrill 2026

### Noson y cwis blynyddol

Daeth cyfres o gyfarfodydd y Gymdeithas i ben nos Lun, 13 Ebrill gyda llawer iawn o chwerthin a thynnu coes, ac ambell ebychnod o syndod wrth i Robin Huw Bowen ein diddanu gyda chwis bywiog a lliwgar. Roedd y gynulleidfa wedi ei rhannu yn bedwar tîm a'r cwestiynau'n amrywiol iawn gan ein diddanu a'n herio yr un pryd. Dyma i chi flas ar rai o'r heriau.

Fflag pa wlad yw hon?



Algeria ydi'r ateb – ac fe osododd Robin y cwestiwn cyn i'r Pab ymweld â'r wlad. Roedd cyfres o gwestiynau am faneri coch, gwyn a gwyrdd.

Tybed wedyn a oeddech yn adnabod ieithoedd gwahanol, boed hynny'n Gaeleg yr Alban neu Sbaeneg?

Wedi hynny aeth â ni i fyd y ditectif teledu – tybed a allech chi enwi'r gyfres a'r actor yma?



Cwestiwn twyllodrus iawn gan ein cwis feistr y tro hwn oherwydd yr ateb yw Shaun Evans fel Endeavour, y Morse ifanc.



Ond efallai mai'r rownd olaf oedd wedi baglu y rhan fwyaf o'r timau, rownd arbenigol ar delynorion enwog Cymru – roedd y demtasiwn yn ormod i Robin mae'n amlwg! Tybed pwy yw'r telynor hwn?

John Parry yw'r ateb.

Yr enillwyr oedd Huw ac Ellen Evans, Huw Chambers a Mary Olwen Owen ac fe'u gwobrwywyd gyda bocs o siocledi, ond buan iawn y rhannwyd y rheini rhwng pawb.

Diolchwyd i Robin am ei waith ac am ysbryd y noson. Yn yr un modd, diolchodd Menai i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn: Sara fel ysgrifennydd, Hefina'n gyfrifol am rota'r te a Huw am rota'r defosiwn. Diolch hefyd i Menai am ei gwaith drwy'r flwyddyn. Edrychwn ymlaen yn awr am dymor arall gan ddechrau ym mis Medi.

## Awydd dod am bicnic?

Gobeithir trefnu picnic yng Nghwm Rheidol ym mis Mehefin (yn ddibynnol ar y tywydd!) naill ai nos Lun, 15 Mehefin neu nos Wener 19 Mehefin. Bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser.

# Astudiaeth Ffydd a Phaned – ar ddyddiau Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom

Mae'r Astudiaethau Ffydd a Phaned yn cyfarfod ar Zoom bob yn ail brynhawn Gwener am 2 o'r gloch.

Croeso cynnes i bawb. Ceir manylion am y cyfarfod gan Eifion.

---

# Gweithredu'n ffyddlon

# Wythnos Cymorth Cristnogol 2026




Mae Cymorth Cristnogol wedi gweithio yn Kenya ers dros 29 o flynyddoedd. Mae taflen weddi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol 10–16 Mai ar gael i chi yn y Capel.

# Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Gŵyl Genhadol y De

Capel Blaenannerch
*De Ceredigion*

DYDD IAU, 21 MAI 2026

Cyfarfod am 1.30 y pnawn

Anerchir gan:
Dr. Eryn White
(Cyflwyniad i hanes Blaenannerch ac Evan Roberts)

Y Parchedig Geraint Morse
(Cenhadaeth heddiw)

Yn dilyn y cyfarfod darperir te yn y festri.
Bydd cyfle i weld Arddangosfa Evan Roberts.

Croeso Cynnes i Bawb

# SULIAU MAI 2026

**Blaenor y Mis**: Gwerfyl Pierce Jones

| | |
|---|---|
| **3 Mai**: | Eifion Roberts (Cymun) |
| **10 Mai**: | Watcyn James |
| **17 Mai**: | Sul y Gymanfa – Bethel, Stryd y Popty |
| **24 Mai**: | Eifion Roberts (Pentecost) |
| **31 Mai**: | Dr Rhidian Griffiths |

Mae'r holl oedfaon uchod am 10.00 o'r gloch, ac os hoffech dderbyn y ddolen i ymuno ag unrhyw un ohonynt ar Zoom, cysylltwch ag Eifion ar eifionroberts095@btinternet.com


# Blodau Mai 2026



| | |
|---|---|
| **3 Ebrill**: | Don (Blodau'r Bedol) |
| **10 Ebrill**: | Marian Delyth (Elusen) |
| **17 Mai**: | Sul y Gymanfa yn Bethel |
| **24 Mai**: | Nonna Owen (Elusen – Man Cynnes) |
| **31 Mai**: | |

Golygyddion y rhifyn hwn yw Gwerfyl Pierce Jones a Menai Lloyd Williams. Diolch hefyd i bawb sydd wedi anfon cyfraniadau i'r rhifyn hwn, yn lluniau ac adroddiadau.

Anfonwch eich cyfraniadau ar gyfer rhifyn Mehefin at Gwerfyl (gwerfylpj@googlemail.com) neu Menai (menaillwyd@googlemail.com) erbyn **dydd Gwener, 22 Mai 2026**, yn ddi-ffael, os gwelwch yn dda.


Darlith Flynyddol • 2026 • Annual Lecture
MORLAN – PANTYFEDWEN
27.4.26 @6.00pm
Mynediad am ddim • Free Entry
'Religion in the 21st Century University:
A Source of conflict or community?'
Lecture by
Dr Mathew Guest
Athro mewn Cymdeithaseg Crefydd
Professor in the Sociology of Religion
Prifysgol Durham University
Canolfan Morlan Centre, Morfa Mawr, Aberystwyth
Croeso Cynnes i Bawb • A Warm Welcome to All
01970 612806 post@jamespantyfedwen.cymru
Ymddiriedolaeth
James Pantyfedwen
Foundation
Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture